CYMDEITHAS ENWAU LLEOEDD CYMRU
WELSH PLACE-NAME SOCIETY

Cylchlythyr 12 Hydref 2017 *Newsletter 12 Autumn2017*



Crys T Dai Hawkins

Canmol Cyngor Ceredigion

Ddiwedd Awst ysgrifennodd Cadeirydd y Gymdeithas, David Thorne, at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

> Ym mhwyllgor diwethaf Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru dangoswyd cefnogaeth unfrydol i bolisi Cyngor Sir Ceredigion ar Enwi a Rhifo Strydoedd. Cymeradwywyd, yn ogystal, waith Pwyllgor Iaith y Cyngor ac ymdrechion swyddogion sydd wedi bod yn ceisio gweithredu'r polisi.
>
> Mae gan amryw gyrff fandad yn llygaid y gyfraith i warchod gwahanol elfennau o'r dreftadaeth hanesyddol. Yn anffodus dyw'r mandad ddim yn estyn i faes enwau lleoedd. Unioni'r diffyg hwnnw oedd un o fwriadau mesur Dr Dai Lloyd. Roedd yn gam hollol naturiol a rhesymegol. Dagrau pethau yw nad oedd gan bob aelod etholedig o ddeddfwrfa Cymru yr hyder i fentro ar hyd y llwybr hwnnw.
>
> Mae arfer dda Cyngor Sir Ceredigion, sut bynnag, i'w gymeradwyo. Ond ar yr un pryd mae'n bwysig i'r drafodaeth barhau tan inni sicrhau deddf gynhwysol a fydd yn atebol i warchod pob elfen o'r dreftadaeth hanesyddol.
>
> Yn y cyfamser, hyderwn y gallwn fanteisio ar ewyllys da Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru i rannu'r ddogfen bolisi a'n hymateb iddi ymysg gweddill cynghorau sir Cymru.

Dyma ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

> Mae Cadw wedi cyhoeddi canllawiau am gofnodion lleoedd o bwys hanesyddol gan gynnwys enwi ac ailenwi lleoedd o'r fath (tudalen 15 a'r atodiad).
>
> Mae'r atodiad yn ymwneud â newid enwau lleoedd a bathu enwau strydoedd.
>
> Mae'r wybodaeth wedi dod o bolisïau amryw awdurdodau lleol megis Cyngor Sir Ceredigion.
>
> http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/historicenvironment/20170523HERs%20in%20Wales%20Compilation%20and%20Use%20-%20CYM.pdf
>
> Felly, trwy ei gynnwys yng nghanllawiau Cadw, mae polisi Cyngor Sir Ceredigion wedi'i ledaenu ymhlith yr awdurdodau lleol i gyd.

Mewn Datganiad i'r Wasg dywedodd y Cyngor Sir:

> Derbyniwyd canmoliaeth uchel gan Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru i Bolisi Enwi a Rhifo Strydoedd Ceredigion mewn cysylltiad ag ymrwymiad y Cyngor i geisio cynnal cyfeiriadau Cymraeg, wrth enwi strydoedd a thai yng Ngheredigion.
>
> Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod ei ddyletswydd i ddiogelu'r iaith Gymraeg o fewn ei gymunedau, ac i hyrwyddo a hwyluso'r iaith ym mhob agwedd o fywyd cymdeithasol ac economaidd Ceredigion. Mae'r Cyngor o'r farn y gall parchu enwau a thraddodiadau Cymraeg esmwytho'r broses integreiddio a chryfhau cysylltiadau cadarnhaol o fewn y gymuned.
>
> Yn ystod y flwyddyn adrodd, derbyniwyd 93 cais ar gyfer enwi tai newydd yn Gymraeg, a 17 cais i enwi tai newydd yn Saesneg. At hyn, derbyniwyd 28 cais i newid enw tŷ o'r Saesneg i'r Gymraeg a 7 cais o'r Gymraeg i'r Saesneg.
>
> Pwrpas y Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd yw prosesu bob cais i enwi stryd a sicrhau bod pob eiddo yng Ngheredigion yn cael cyfeiriad swyddogol sy'n eglur a diamwys. Mae'r polisi hefyd yn amlygu pwysigrwydd cadw enwau lleoedd Cymraeg fel nad ydynt yn cael eu colli fel y mae demograffeg y sir yn araf newid. Bydd y Cyngor, gan ymgynghori â'r Cynghorau Tref a Chymuned, yn hybu ac yn annog defnyddio enwau Cymraeg ar strydoedd newydd a stadau tai newydd.
>
> Mae'r polisi hefyd wedi ei ddiwygio er mwyn annog perchnogion tai i ystyried enwau Cymraeg ar gyfer eu cartrefi. Mae'n nodi y dylai unrhyw un sydd am enwi tŷ a adeiladwyd o'r newydd, neu sydd am ail-enwi tŷ yng Ngheredigion, gyflwyno cais ysgrifenedig i'r Swyddog Rheoli Cyfeiriadau yn nodi'r enw arfaethedig ar gyfer yr eiddo newydd. Os ydy'r enw presennol yn un gwreiddiol a hanesyddol, ac yn enwedig yn enw Cymraeg hanesyddol, yna anfonir llythyr safonol at y cwsmer yn gofyn iddynt ailystyried a chadw'r enw presennol (hyd yn oes os ydy'r enw newydd arfaethedig yn enw Cymraeg). Mae'r llythyr safonol yn rhoi 10 niwrnod gwaith i'r cwsmer ailystyried ei benderfyniad, gyda'r cwsmer yn dal yr hawl i wneud y penderfyniad terfynol.
>
> Argymhellodd y Pwyllgor Iaith a'r Cabinet newidiadau i'r polisi ym Medi 2016 i ychwanegu ymwadiad at y llythyr. Wrth ychwanegu ymwadiad, mae'n rhaid i ymgeiswyr gydnabod eu bod wedi derbyn y llythyr drwy ei arwyddo a'i ddychwelyd, o ran eu penderfyniad terfynol ynghylch enwi neu ailenwi eu cartrefi.
>
> Dywedodd Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, "Cymdogaethau Cymraeg eu hiaith a dwyieithog Ceredigion yw sylfaen diwylliant a bywyd y sir o ddydd i ddydd ac mae'r sir yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg. Braf yw gweld enghreifftiau o drigolion di-Gymraeg yn symud i'r ardal ac yn gwneud cais i newid enw Saesneg eu heiddo i'r Gymraeg. Eu rhesymau dros wneud hyn yw er mwyn cefnogi traddodiad lleol a ffurfio perthynas â'r gymuned leol ac rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr." ...
>
> "Rydym yn hynod o falch i dderbyn canmoliaeth am ein polisi gan Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, sydd eisiau rannu'r ddogfen bolisi a'r ymateb iddi ymysg gweddill Cynghorau Sir Cymru trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a hefyd, aelodau Panel Safoni Enwau Lleoedd Cymru (Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg)."

Bydd y Swyddog Rheoli Cyfeiriadau yn rhoi diweddariad at sylw'r Pwyllgor Iaith yn rheolaidd, er mwyn monitro beth sydd wedi digwydd ers cyflwyno'r gofyniad i arwyddo ymwadiad wrth newid enw.

Medrwch ddarllen Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd ar wefan y Cyngor www.ceredigion.gov.uk.

The Society wrote to the Welsh Local Government Association, praising Ceredigion's Street Naming and Numbering Policy. Ceredigion's response to this can be found at http://www.ceredigion.gov.uk/English/Resident/News/Pages/Policy-to-maintain-Welsh-names-commended.aspx

Enwau Afon Saint a Rhythallt

(Noson ar y cyd rhwng y Gymdeithas a Chymdeithas Hanes y Tair Llan)

Llwyddiant, yn bendant, oedd mentro cynnal noson ar y cyd â chymdeithas arall. Dafydd Whiteside Thomas fu'n trafod ffrwyth y gwaith y bu'n llwyddiannus ag ef yn Eisteddfod y Fenni y llynedd, sef astudiaeth o enwau Afon Saint a Rhythallt. Nid dwy afon oedd dan sylw ond un gyda dau enw – dyma'r afon sy'n tarddu o'r llethrau uwch Dyffryn Peris ac yn llifo trwy Nant Peris a Llanberis hyd Caernarfon. O'i llygad hyd at Lanrug, Afon Rhythallt yw hi; o'r fan honno i'r mor, Afon Saint.

Roedd y blynyddoedd o waith manwl a wnaed gan Dafydd yn amlwg, Trwy ymchwilio a holi ffermwyr lleol gallai enwi'r holl afonydd a nentydd a lifai i Afon Saint/Rhythallt a roi i ni hanes y gweithfeydd, chwareli a melinau ar ei hyd ynghyd â hanes porthladd Cwm-y-glo ac, wrth gwrs, hanesion personol difyr.

Cawsom weld darluniau gan yr artist Warwick Smith (ac eraill) o'r ardal yn y 1790au. yn dangos y gwaith copr ger Nant Peris a thystiolaeth o adeiladu'r pontydd ar draws yr afon a ffotograffau hanesyddol a chyfoes o'r ffosydd a'r 'criwiau' ar hyd yr afon a adeiladwyd i fwydo dŵr i'r melinau amaethyddol a diwydiannol.

Astudiaeth gyflawn oedd hon a noson dda, a gafodd ymateb calonogol iawn – awr a hanner o bleser llwyr.



Wyn Williams

Ysgrifennydd Cymdeithas Hanes y Tair Llan

Barddoniaeth yr Oesoedd Canol ac Enwau Lleoedd

Ffurfiau hanesyddol, wrth gwrs, yw deunydd crai'r sawl sy'n dymuno astudio hanes enwau lleoedd. Dyma sy'n caniatáu iddo olrhain datblygiad enw penodol dros y canrifoedd, yn ogystal â chynnig cliwiau pwysig o ran tarddiad. Un ffynhonnell bwysig ar gyfer y ffurfiau hyn yw ein llenyddiaeth frodorol, ac yn arbennig y farddoniaeth a gysylltwn â Beirdd y Tywysogion (*c.*1050–*c.*1282) a Beirdd yr Uchelwyr (*c.*1282 hyd ddiwedd yr 16g.), barddoniaeth sy'n moli arweinwyr y gymdeithas Gymraeg, ac yn arbennig eu hawdurdod dros diriogaeth benodol.

Mae dros 6,100 o gyfeiriadau at enwau lleoedd yn y farddoniaeth a olygwyd yng Nghyfres Beirdd yr Uchelwyr a Gwefan Guto'r Glyn – tystiolaeth bwysig am ddefnydd Cymry Cymraeg o enwau yn eu cyfnod. Mae cynghanedd ac odl yn aml yn cynnig arweiniad defnyddiol iawn i ni ar gyfer ynganiad ac aceniad yr enwau: e.e. mae'r gynghanedd mewn llinell gan Guto'r Glyn yn dangos mai Ysbaen, gyda'r acen ar y sillaf gyntaf, oedd enw'r wlad iddo ef – *I gosbi Iorc ac Ysbaen*.

Nodwedd ddiddorol ar farddoniaeth Guto'r Glyn (15g.) yw'r cyfeiriadau niferus sydd ganddo at enwau lleoedd y tu allan i Gymru, enwau nad yw wastad yn hawdd dod o hyd i wybodaeth amdanynt, gan fod astudiaethau ar enwau Cymraeg yn tueddu i fod yn gyfyngedig i enwau Cymru. Efallai fod cyfeiriadau o'r fath yn fwy niferus yng nghanu Guto na'i gyfoeswyr am iddo deithio cryn dipyn. Yn ogystal â theithio hyd a lled Cymru a'r Gororau (gyda nifer o'i noddwyr yn byw yn swyddi Henffordd ac Amwythig), gwyddom iddo dreulio cyfnod yn Ffrainc yn gynnar yn ei yrfa, gan fod tystiolaeth ddogfennol yn profi iddo hwylio o Bortsmouth i Normandi yn 1441 er mwyn ymladd fel milwr bwa saeth yng nghatrawd Dug Iorc. At hynny, ymwelodd â sawl ardal yn Lloegr yn ystod ei yrfa faith, fel pan gafodd ei gyflogi gan Syr Bened, person Corwen, i yrru ei ddefaid i'w gwerthu mewn marchnadoedd a ffeiriau yn Lloegr. Yn ogystal â'r profiadau personol hyn, cymerodd ddiddordeb mawr yn niwylliant materol ei oes, ac roedd yn gyfarwydd â mannau arwyddocaol o ran masnach, yn enwedig o ran y fasnach win!

Cyfeiria Guto at wledydd ar draws Ewrop a'r dwyrain, a diddorol yw sylwi ar yr hyblygrwydd a welir ganddo o ran ei ddefnydd o'r fannod: *India / yr India*, *Israel / yr Israel*, *Ysbaen / yr Ysbaen*, ac ati. Ceir sawl cyfeiriad ganddo at lefydd yn Ffrainc: at *Baris* a phorthladd enwog *Calais* (yn odli â *pais*); ac mae'n siŵr mai dibynnu ar ei wybodaeth bersonol fel milwr a wna wrth enwi *Aensio* (Anjou), *Rhôn* (Rouen) *Mawnt* (Mantes) a *Mawns* (Le Mans) yn ei gerddi cynnar i'r capteniaid milwrol Mathau Goch a Rhys Gethin. Tipyn o ddirgelwch yw *Dotawnt*, sydd, yn ôl y cyd-destun, yn debygol o fod yn afon neu'n nant yn ardal Mantes neu Rouen. Enwa sawl ardal yn Ffrainc a oedd yn enwog am eu gwin: *Baiwn* (Bayonne), *Bwlaen* (Boulogne), *Bwrdiaws* (Bordeaux), *Byrgwyn* (Bougogne), *Main* (Maine) a *Paitio* (Poitou), ac at y rhain gallwn ychwanegu *Glyn Rhin*, sef Dyffryn afon Rhein yn yr Almaen. Oherwydd eu cysylltiadau masnachol hefyd yr enwir *Aras* (yn Artois), a oedd yn enwog am dapestrïau, a *Melan* (Milan, yr Eidal), dinas enwog am ei dur. Ac at y rhain gallwn ychwanegu *Yr Ysbrús* (Prwsia) a *Castil* (acen ar y sillaf gyntaf), sef Castille yn Sbaen - mannau ac iddynt arwyddocâd o safbwynt llinach dau o'i noddwyr.

Mae'n debygol mai drwy ffynonellau Beiblaidd yr oedd *Sodma* a *Gomora* yng ngwlad yr Iorddonen yn gyfarwydd i Guto, ond mae'n fwy tebygol mai oherwydd eu henwogrwydd fel canolfannau pererindota yr enwir *Caer Selem* (Jerusalem), *Rhufain* yn ogystal â *Sain Siâm* (Santiago de Compostela) ganddo. Arbennig o ddiddorol yw'r cyfeiriad at *Borth Siaff*, sef porthladd ar arfordir Israel lle glaniai pererinion o Ewrop cyn cyrchu Jerwsalem ar ran olaf eu taith (bellach Jaffa). Mae'n debygol mai benthyciad o un o ffurfiau Saesneg y bymthegfed ganrif yw'r ffurf gan Guto.

Fel y gellid disgwyl mae mwyafrif yr enwau lleoedd y tu allan i Gymru yng ngwaith Guto i'w lleoli yn Lloegr. Gall fod rhai ohonynt yn gyfarwydd iddo drwy ffynonellau llenyddol, megis yr enwau sy'n digwydd mewn cyd-destun fformwlëig yn dynodi pegynau daearyddol: e.e. *Dofr* (Dover), sy'n dynodi pegwn de-ddwyreiniol Prydain, neu *Brysto* (Bryste), a geir gan Guto ac eraill yn y cyfuniad *Brysto i Benfro*. Yn yr un modd fe enwir *Wtil* (Out isle) i ddynodi pegwn gogleddol (yn gyfeiriad posibl at Ynysoedd Heledd) ac enwir *Celyddon* yn yr un modd yn y llinell *Daugleddau hyd Gelyddon.* Dyma fforest Caledon yn yr Alban a fu'n enwog yn ein llenyddiaeth fel y man lle'r aeth Myrddin yn wallgof.

Cyfeiria Guto'n aml at ardaloedd ac adeiladau yn Llundain, ac mae'n anodd barnu a yw'n tynnu yma ar ei brofiadau personol neu ar ei ddysg. Er enghraifft, cyffredin yw cyfeiriadau'r beirdd at *Sieb* neu *Siêp* (Cheapside), ardal enwog am ei siopau amrywiol, a defnyddiant gyfuniad fel *siopau Siêp* i ddisgrifio tŷ noddwr a oedd yn gyforiog o fwydydd a nwyddau amrywiol. Yn yr un modd, cyffredin yw disgrifio adeiladau mawr fel *Westmestr* (Westminster) neu *Bowlys* (cadeirlan St Paul's).

Mae union ffurf yr enwau o Loegr yn aml yn ddiddorol. Mae rhai, fel *Banbri, Cwyntry, Elsmer* a *Northfolc,* lle nad oes gair cyfatebol Cymraeg, yn adlewyrchu ynganiad Saesneg y cyfnod. Hefyd *Ffecnam*, enw a ddaeth i'r golwg wrth i ni ailolygu gwaith Guto – fe'i ceir mewn cerdd yn ymwneud â hela, yn gyfeiriad tebygol at *Feckenham* yn swydd Gaerwrangon, lleoliad fforest brenhinol o bwys yn yr Oesoedd Canol. Weithiau ceir ganddo enwau Seisnig wedi eu Cymreigio, fel *Iorc, Litsffild* a *Salsbri*, yn hytrach na'r ffurfiau Cymraeg *Caerefrog* / *Efrog*, *Caerlwytgoed* a *Chaersallog*. Arbennig o ddiddorol yw *Defnsir. Dyfnaint* yw'n gair ni bellach am Devonshire, ond yn yr Oesoedd Canol cynrychiolai *Dyfnaint* diriogaeth ehangach na'r sir fodern. Mae'r ffurf *Barstabl* am *Barnstaple* hefyd yn ddiddorol – tybed a yw'r ffurf heb *n* yn adlewyrchu datblygiad y gair yn Saesneg, neu ai'r Cymro oedd yn cael trafferth efo'r clymiad *rnst*?

Gallwn fod yn fwy sicr fod Guto yn tynnu ar ei brofiadau personol wrth enwi mannau yn swyddi Amwythig a Henffordd, dwy ardal lle bu'n clera'n helaeth. Er enghraifft, enwir *Siffnal* (Shifnal) a *Blagmer* (Blackmere) oherwydd eu harwyddocâd ym mywyd yr iarll John Talbod o Amwythig. Mae rhai enwau yn ddigon tebyg i'w ffurfiau Seisnig, e.e. *Eutun* (Eyton on Severn), *Y Cnwcin* (Knockin), *Maesbrog* (Maesbrook) a *Melwern* (Malverley); ond mae eraill yn gwbl wahanol yn y ddwy iaith, fel *Trefrydd* neu'r *Drefrudd* am Wattlesborough ym mhlwyf Alderbury, tyst i orffennol Cymraeg yr ardal hon dros y ffin.

Ceir golygiad o farddoniaeth Guto'r Glyn yn http://www.gutorglyn.net

Ceir mynegai llawn i enwau lleoedd ym marddoniaeth Guto'r Glyn ar Wefan newydd y Gymdeithas.

Ann Parry Owen
(apo@cymru.ac.uk)

A study of the place-names in the poetry of Guto'r Glyn (15c.)

Casgliad o Enwau Lleoedd

Gwahoddiad Caredig i Gystadlu

Dyma fanylion cystadleuaeth rhif 182 yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, Awst 2018:

> **Casgliad o hyd at 30 o enwau lleoedd unrhyw ardal, pentref neu dref yng Nghymru, gyda thrafodaeth ar eu hanes a'u hystyron a chofnod o'u cyfeirnod grid. Dylid hefyd, pan fo hynny'n bosibl, nodi ffynhonnell y wybodaeth.**

Cystadleuaeth yw hon a osodwyd gan Amgueddfa Werin Cymru, gyda £200 o wobr, yn rhoddedig gan yr Amgueddfa, a'r Athro David Thorne yn beirniadu.

Daw'r wobr ariannol o **Gronfa Goffa Elizabeth Reynolds** (1907-1986), Brynhoffnant, Ceredigion.

Hyfrydwch arbennig i mi, er 1963, oedd cael adnabod Elizabeth Reynolds. Yr oedd yn un o brif gymwynaswyr diwylliant gwerin Cymru, ac y mae ar gadw yn Sain Ffagan gasgliadau helaeth o'i gwaith, ffrwyth llafur cariad yn cofnodi agweddau cyfoethog yn ymwneud â'r maes hwnnw ac yn cystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Cyn ei marwolaeth (9 Mawrth 1986) yr oedd wedi mynegi ei dymuniad i gyflwyno rhodd ariannol i'r Amgueddfa Werin er mwyn hyrwyddo cofnodi ac astudio ein llên gwerin, a thrwy gydweithrediad caredig ei mab, Idris, dyna a ddigwyddodd. Mawr yw ein diolch iddi.

Afraid dweud y mae gennym yng Nghymru fwynglawdd o enwau lleoedd sy'n teilyngu pob gofal i'w trysori, ac y mae cofnodi ac astudio'r enwau hyn yn allwedd heb ei ail i wybod mwy am hanes pobl a'u bro. Canmil diolch ichwi, felly, am roi cynnig ar y gystadleuaeth arbennig hon yn Eisteddfod Caerdydd ac am annog eraill i gystadlu.

Robin Gwyndaf

Cynhadledd Carto-Cymru

Ar 12 Mai cynhaliwyd 'Symposiwm Mapiau Cymru 2017: Mesur y Meysydd', gan y Llyfrgell Genedlaethol mewn partneriaeth â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru, Prifysgol Bangor yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Cyflwynwyd hanes mapio ystadau rhwng 1570 a 1800 yn feistrolgar gan Peter Barber, Cyn-Bennaeth Mapiau'r Llyfrgell Brydeinig, gan ddangos amrywiaeth o fapiau, o rai plaen tebyg i fapiau degwm ar gyfer gwaith asiant tir i rai addurnedig tu hwnt, a oedd yn amlwg yn rhai i'w harddangos ar waliau'r tirfeddianwyr cyfoethocaf.

Cafwyd nifer o bapurau o ddiddordeb Cymreig arbennig, gan gynnwys un gan R J Silvester o Brifysgol Caer ar 'Changing trends in estate mapping in the Welsh border counties during the seventeenth and eighteenth centuries'; papur ar ddigido mapiau degwm a stadau Cymru gan Einion Gruffudd o Brosiect Cynefin yn y Llyfrgell Genedlaethol; a phapur dan y teitl 'Cantrefi a Chymydau: rediscovering the medieval boundaries of Wales for the digital age' gan John Dollery a Scott Lloyd o Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Yn ogystal, cyflwynodd Shaun Evans o Brifysgol Bangor brosiect newydd Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru a fydd o ddiddordeb arbennig i aelodau'r Gymdeithas yn y dyfodol a disgrifiodd Huw Thomas, Curadur Mapiau LLGC, yr arolwg o faenorau Crucywel a Thretŵr a luniwyd gan Robert Johnson yn 1587.

Er mwyn gosod y pwnc yn ei gyd-destun ehangach, traddodwyd nifer o bapurau yn ymwneud â Lloegr ac Iwerddon, gan gynnwys ffrwyth prosiect uchelgeisiol i fapio trefi hanesyddol Iwerddon mewn cyfres o gyfrolau swmpus (yr *Irish Historic Towns Atlas*) gan Jacinta Prunty o Brifysgol Maynooth, a disgrifiodd Sarah Bendall o Goleg Emmanuel, Caer-grawnt, y mapiau o ddaliadau tiroedd sydd gan y coleg hwnnw fel tirfeddiannwr sefydliadol.

Andrew Hawke

LIGC: Map Gogerddan 105

Caeau Môn, Iarlles Ddigartref

Pentre bychan yng ngogledd Môn yw Llanfechell. Roedd ystad Brynddu yn cynnwys 79 fferm a thyddyn yn 1875. Ceir hanes y sgweiar prysur, William Bulkeley, (1691 –1760), Bwcle ar lafar, yn llyfr difyr Emlyn Richards, *Bywyd Gŵr Bonheddig*. Teimlai'r sgweiar yn gartrefol yng nghwmni boneddigion y sir a thlodion y plwyf fel ei gilydd. Roedd yn arloeswr egnïol ym maes amaeth ac yn goruchwylio pob tasg. Ei brif amcan, gydol ei oes, oedd gwella ansawdd y tir a chreu caeau o'r tir agored.

Yn ogystal ag agor ffosydd sylweddol, hau tywod, codi terfynau a gwella ansawdd tir Brynddu, a oedd yn cynnwys Fferam, Brynclynni (*Brynkelynn* yn 1473 yng nghasgliad Penrhyn) a Choedan yn eu crynswth, mynnai roi amodau manwl iawn wrth osod fferm neu dyddyn. Byddai'n ad-dalu cyfran o'r rhent pan wnaed gwelliannau penodedig a thrwy hyn, llwyddodd i wella ansawdd tir ei ardal. Roedd ganddo ddull rhesymegol o greu caeau a dilynodd yr un patrwm yn gyson ar hyd ei oes. Yr oedd enw i bob un cae.

Dyw enwau caeau ddim wedi eu cofnodi yn Rhestr Pennu'r Degwm yn 1840 ym mhlwyf Llanfechell. Felly, rhaid troi at ffynonellau eraill am wybodaeth. Cafwyd hyd i nifer o fapiau'r ystad yn 1773, 1805 ac 1875.

Ysywaeth, mae enwau caeau rhifau 1–4 Brynclynni heb eu cynnwys. Ond gan mai *William Bulkeley* ei hun oedd yn ffermio Brynclynni, mae'n enwi'r caeau yn gyson yn ei ddyddiaduron. Enw sy'n ymddangos yn bur aml rhwng 1735 a 1759 yw Cae'r Iarlles. Pwy neu beth oedd yr Iarlles tybed? A ble roedd Cae'r Iarlles y bu cymaint o sôn amdano? Yn y dyddiaduron gwelwn sut y crëwyd Cae'r Iarlles gam wrth gam rhwng 1735 a 1759 pan oedd William Bulkeley wrth ei waith. Yn y cofnod cyntaf ym mis Mai 1736, mae'n nodi iddo droi wyth o ychen i besgi yno, ac ar 22 Mehefin 1737 mae'n cychwyn ar y 'Great Ditch'. Mae tir tyddyn Cae Maen Arthur, rhif 135 Degwm Tyddyn Cywarch gynt yn ffinio â therfyn de-orllewin cae rhif 5 ar fap 1805 Richard Owen (www.cynefin.archivewales.org.uk).

14 March 1740/41 '– My Servants all this week employed in Sowing & harrowing great Oats in Bodelwyn & Brynclynni – Sowed likewise in Caeau'r Iarlles in Brynclynni Cowslip seeds & here and there some Meliot [meillion] seeds amongst the hay Seeds.' Gwelwn fod mwy nag un Cae'r Iarlles ac mae map 1773, yng nghasgliad Plas Coch yn dangos y ddau gae.

6 Febuary 1747/8 '– My people were hedging at Cae'r Iarlles ye being the week in wch I intended to plant haw thorn quick, that field being designed for a Pinfold next Summer—.'
Ym Mawrth maent yn ffensio. Yn Ionawr a Mawrth 1747 mae'n plannu drain gwynion ar gyfer creu ffald i'r da yn ystod yr haf. Mae'r dynion yn agor ffos newydd ar derfyn deheuol y cae yn Hydref 1748 ac yn ei ymylu a pherth ddwbl o ddrain ac afalau surion bach.
27 October 1748 '– begun the new ditch at the South Side of Cae'r Iarlles.

7 November 1748 '– Finished today planting my Hedge about Cae'r Iarlles with a double row of Haw thorn and Crab plants & planted at proper distances 75 Ash, 33 Elms, 15 Great Maples, vulgarly called Sycammores, and two Lyime Trees.'

5 October 1749 '– Today begin to muck Cae'r Iarlles Isaf – the other Cae'r Iarlles having muck enough on it as was these last 2 years a pinfold for my Cows.' Mae hyn yn cadarnhau fod Cae Iarlles wedi ei rhannu'n ddau ac o ystyried nifer y coed, yn gae tra sylweddol o ran ei faint.

23 November 1749 '– Today my people begun to fallow Caeau'r Iarlles and Cae'r Delyn.'

28 September 1751 'My people were all this week with 2 Carts carrying the Ash-hill by this house to Cae'r Iarlles in Brynclynni.'

4 April 1752 '– My people finished harrowing the Oats & pease, and were, some of them rough harrowing the winter fallows and others carrying muck hills on Cae'r Iarlles.'

24 November 1759 '– My day labourers were this week making new ditches about Cae'r Iarlles & Cae Pen Brynklynni and planting them with Quick sets.' [toriadau/cuttings]

21 June 1760 '– last 4 days of this week carrying Muck from about these houses to the Pinfold at Brynclynni (being Cae'r Iarlles).'

O dipyn i beth, datgelwyd i ni leoliad Cae'r Iarlles a'r Great Ditch, gan ein galluogi i gofnodi enw'r cae a'i warchod.

(Diolch am ganiatâd yr Athro Robin Grove White ac ymchwil Dr Dafydd Wyn Wiliam),

Rhian Parry


22d. The Wind S. S.W. hot, & Sultry, my people unladeing a Boat of Sand to day again. Owen John Rowland of Bodlwyfan has bien all this week hitherto (for I hope he'll finish to Night) drying of Oats for Shelling to make Dilicorn & groats, my other servants still plowing the Pinfolds at Cnewchdernog, To Day I begun to open the great Ditch betwixt Cae'r Iarlles and Cae Maen Arthur.

Darn o ddydiadur William Bulkeley 22 Mehefin 1737, Archifau a Chasgliadau Arbennig, Prifysgol Bangor, Henblas A 18. 17.



Map Brynddu Demesne, 1805 Richard Owen. Rhif 5 yw Cae'r Iarlles
Drwy garedigrwydd Archifau Ynys Môn,WD/21/18.



References of

BRYNDDU

Demesne

No.	Fields Names		A. R. P.
1		Meadow	1 2 7
2		Arable	4 3 12
3		M.	1 2 38
4		A.	3 3 30
5	Bryn Clynin	Pasture	19 0 0
6		A.	5 0 6
	Carry over		36 0 21

Tudalen cyntaf llyfr enwau caeau Brynclynni a Brynddu, dechrau'r 19 ganrif, sy'n cyd-fynd â map 1805.
Archifau a Chasgliadau Arbennig, Prifysgol Bangor, Plas Coch 3358.

Llun o'r 'Great Ditch' yn 2015.
Wrth gerdded y tir, gallwn weld y ffos a gwybod i sicrwydd ein bod yng Nghae Maen Arthur a Chae Iarlles uwchben y ffos ar y chwith.

Gwarchod

Daeth newyddion da oddi wrth y Loteri. Cafwyd estyniad pellach i'r prosiect hyd at Rhagfyr 2018. Gwnaed cais am hyn oherwydd y galw am weithdai a grwpiau casglu a chofnodi enwau. Yn ogystal, mae'r gwaith o gofnodi mân enwau ar ein map digidol wedi cynyddu'n fawr iawn.

Criw casglu a chofnodi enwau plwyf Amlwch
Mae aelodau Cymdeithas Age Well, Amlwch yn bobl brysur dros ben. Ar y funud maent yn paratoi llyfr o hanesion a lluniau Amlwch a'r cylch ond eu cynllun dros y gaeaf yw cofnodi mân enwau'r plwyf diddorol hwn. Mae eu gwybodaeth leol yn sylweddol a'u hegni'n rhyfeddol. Rhoddwyd sgwrs gychwynnol am Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a'i hamcanion a dangoswyd y map digidol iddynt. Diolch i Jean ac Ian am hwyluso'n gwaith yma.

Criw casglu a chofnodi enwau plwyfi Llaneilian a Phenrhosllugwy
Criw arall diwyd iawn yw dyrnaid o gyfeillion a gyfarfu â ni ym Mhengorffwysfa, wrth droed Mynydd Eilian. Yma hefyd mae unigolion gwybodus a haneswyr penigamp. Byddwn yn datblygu'r cysylltiad dros y gaeaf ac yn cofnodi hanes enwau ogofau, chwareli, cilfachau'r glannau ac odynau celp a rhedyn.

Llun: Mair a Rolant, Miriam a Tommy, ac Ian o griw Amlwch

Diolch am y croeso cynnes yn y ddau le ac edrychwn ymlaen at gael mwynhau eu cwmni diddan dros y gaeaf.

Good news from the Lottery. A further extension has been given to the project until December 2018, because of the demand for workshops and groups collecting and recording names. There has been a great increase in the number of minor names on our digital map.

Rhian Parry

Society for Name-Studies in Britain and Ireland, 2017

The twenty-sixth annual conference was held in Didcot, Oxfordshire, from 24 to 27 March. The conference celebrated the work of the late Margaret Gelling and Ann Cole on the place-names of the area. This too was the theme for our visit to the Upper Thames Basin, preceded by a valuable illustrated talk by Ann. As always, she described the topography and underlying geology of the area, relating them to the place-names used by the Anglo Saxon settlers. 'The area of South Oxfordshire, is bounded to the north by the Oxford Heights (*dūn* country) which stretch from west to east through the town of Oxford. To the south, are clay vales drained by the rivers Ock and Thame, an area prone to frequent flooding. As a consequence, names for dry points for crossings are common. Further south lies the Chiltern Loam Belt with its strip parishes and spring-line settlements and then the chalky uplands of the Chilterns. On the highest slopes, lie clay-with-flints where names for the scarce water supply and the sheltered valleys predominate'. Members will find Margaret Gelling and Ann Cole: *The Landscape of Place-names* (ISBN: 978-1-90773038-2) of interest. It is well illustrated by Ann with both maps and profiles of landscape features.

As always, the programme sets a challenging timetable of talks and lectures by a variety of experts. There is always something for everyone, a feature which indicates the breadth of study encompassed by the society. Subjects included place-names and the study of the medieval wool-trade in Gloucestershire, a comparison of test-pit archaeology and field-name evidence, family names in Irish, townland names, Pre-Roman languages in East Anglia, English place-names in west Cornwall, and the dating of medieval Scottish place-names.

This conference was one of the most friendly groups of people I have met. I would encourage members of the WPNS to attend. Lectures are clear and accessible to all and rarely complex or impenetrable. The 2018 conference is to be held at Blackwaterfoot, Arran, Scotland, 6–9 April.

I attach a photograph of one of the Conference members from Sweden, Boel Jepson, enjoying what was for her the early flowering of a magnolia at the conference centre. Her PhD thesis 'English Place-Name Elements Relating to Boundaries', addresses place-names in parts of England, with a few place-names in Sweden mentioned there. One is Råby in her province of Scania (Skåne), probably etymologically identical with Roby in Lancashire and Raby in Cumberland. By 'English Place-Name Elements' she means elements occurring in English place-names even if the elements are of Scandinavian origin.

Rhian Parry



Richard E. Huws: *Enwau tai a ffermydd Bont-goch (Elerch), Ceredigion.* (ISBN: 978-1-78461-491-1; Cyhoeddwyd gan yr awdur; £9.99).

I Gardi o ogledd y sir, sy'n ymfalchïo yn y ffaith honno, dyma berl o gyfrol sy'n rhoi o dan y chwyddwydr anial dir 'Eleirch', chwedl Dafydd ap Gwilym, ond sy'n fwy cyfarwydd i ni heddiw efallai fel ardal Bont-goch. Ond bydd apêl y gyfrol yn lletach o lawer na ffiniau'r ardal fynyddig honno y trafodir ei henwau lleoedd yma. Yn dilyn 'Cyflwyniad' byr ond cynhwysfawr, eir ati i restru enwau tai a ffermydd yr ardal yn nhrefn y wyddor, a hynny â manylder cyfewin a chysáct a olygodd yn ddiau oriau lawer o waith i'r awdur, ac na ellir yma ond cyfeirio at rai o'r amryfal bethau a aeth â bryd yr adolygydd hwn.

Un peth â'm trawodd oedd amlder yr elfen 'Tyddyn' yn yr enwau a drafodir, ond elfen a gollwyd yn aml yn nhreigl y blynyddoedd, megis [Tyddyn] Bryn y barcud, [Tyddyn] Bwlch y Pant Mawr (Moelgolomen yn ddiweddarach), [Tyddyn] Llety Ifan Hen, [Tyddyn] Nant Perfedd, a llawer un arall. Wrth grwydro'n hapus trwy'r tudalennau, agorwyd fy llygaid sawl tro i wir ystyr ambell enw digon cyfarwydd i mi, fel, er enghraifft, yr enw Troedrhiwseiri. Dychmygais erioed i hwn unwaith fod yn gartref i deulu o seiri – tad a dau neu dri o'i feibion, efallai, yr oedd eu gwaith yn gyfarwydd i bawb yn y fro. Ond na, nid felly o gwbl! 'Seri', nid 'seiri' sydd yma, sef 'llwybr wedi ei balmantu' yn ôl *Geiriadur y Brifysgol*. Daeth goleuni tebyg i'm rhan sawl tro wrth bori yn y gyfrol ddiddorol hon.

O ddiddordeb personol i mi oedd cofnod yr awdur am Gapel Sbaen neu Gapel Tabor, capel yr Annibynwyr a adeiladwyd 'yn ymyl y ffordd sy'n arwain o chwarel yr Hafan at Nant-y-moch' nad yw'n bod bellach, er bod carreg erbyn hyn yn nodi'r llecyn lle safai gynt. Yno mewn eisteddfod leol o gwmpas dechrau'r ganrif ddiwethaf y cyfarfu fy nhaid a mam-gu ('taid' am mai un o wlad Llŷn ydoedd), priodi'n ddiweddarach, ac mae'r gweddill yn hanes. Hyfryd hefyd i mi, o dan 'Llawr-y-glyn', oedd gweld cyfeiriad at y ddwy chwaer, Jane Evans a Margaret Mary Evans, a fu'n byw yno. Am flynyddoedd lawer bu Miss Evans (Margaret) yn cerdded yn ddyddiol ac ym mhob tywydd, dros y bryniau o Bont-goch i Ysgol Trefeurig, lle gofalai am addysg y plant iau, a braint i mi oedd cael bod yn un o'r rheini yn ystod ei chyfnod hi.

Cymeriad arall y telir teyrnged haeddiannol iddi yn y gyfrol hon yw'r diweddar ryfeddol Hilda Thomas, Cwmere, 'un a fu'n gyfarwydd iawn i'r genedl', meddir yma, 'oherwydd ei chyfraniadau cyson i *Stondin Sulwyn* ar Radio Cymru . ... Gweithiodd yn ddiflino dros ei milltir sgwâr a bu ei chyfraniad i Eglwys St. Pedr, Elerch a *Phapur Pawb* yn amhrisiadwy'. Gwir y gair. Coffa da am wraig arbennig iawn.

Ceir cyfeiriadau lu at amrywiaeth lliwgar o gymeriadau eraill a fu'n rhan o wead cyfoethog yr ardal a gwmpasir mor drylwyr yn y gyfrol, ac y mae oriau o ddifyrrwch pur yn aros y sawl a fyn oedi yma ymhlith yr enwau lleoedd a groniclir, a'r straeon, chwedlau a'r traddodiadau sydd ynghlwm â llawer ohonynt. Dyfynnir hefyd o waith beirdd lleol megis y diweddar J R Jones, Huw Huws a J Ll Nuttall.

Brithir y gyfrol â lluniau o adeiladau, murddunod, mapiau (un 'bras fap' arbennig o ddefnyddiol o waith Meleri Mair). A llawer mwy, ac y mae iddi glawr hynod o ddeniadol o waith ein artist lleol, Wynne Melville Jones.

Llongyfarchiadau i Richard ac i bawb a fu â llaw yng nghynhyrchiad y gyfrol nodedig hon. **Tegwyn Jones**

Cyhoeddwyd gyntaf yn Y Tincer

Yr Harbwr Allanol

Rai blynyddoedd bellach – tua ugain mlynedd yn ôl efallai – penderfynodd Cyngor Tref Pwllheli basio i ofyn i Gyngor Gwynedd gael gwared â'r enwau Saesneg ar fannau yn y dref. Felly y bu – diflannodd y rhan fwyaf o'r arwyddion dwyieithog, gan roi rhai Cymraeg yn unig ar enwau strydoedd. Er hynny, llithrodd ambell un dwyieithog drwy'r rhwyd nes gwelir ambell un o hyd.

Un peth ydyw difa'r gweladwy; peth arall ydyw eu difa go iawn. Tros y blynyddoedd bu swyddogion Cyngor Gwynedd yn gyrru dogfennau cyhoeddus dwyieithog gyda *Stryd Fawr* yn y fersiwn Gymraeg a *High Street* yn y fersiwn Saesneg yn hytrach na chadw *Stryd Fawr* yn y fersiwn Saesneg hefyd. Llwyddwyd i oresgyn hyn i raddau helaeth bellach.

Eto ysywaeth mae gweithgarwch y Swyddfa Bost yn llesteirio hefo'r bondigrybwyll Godau Post. Gallwch fod yn byw ym *Mhenlon Llŷn* ond rhowch y cod post perthnasol i mewn i raglenni ar lein i brynu sosban neu sgidiau neu siampŵ i'r ci, a beth ddaw i'r golwg fydd y cyfeiriad rhaglenedig a 'chywiro''r enw i *Lleyn Street*. Rwyf wedi ymdrechu'n ofer droeon i gysylltu â Gwynedd a'r Comisiynydd i geisio ymrafael â hyn. Ni ddaeth dim llewyrch eto.

A daeth enwau newydd: bydd rhai sy'n gynefin â Phwllheli yn gwybod bod yna harbwr mawr yma yn nefoedd i'r cyfoethogion sy'n chwarae â chychod. Dros y blynyddoedd bu ailwampio arno. Cafodd dipyn o'i siapio yn 1909 a thrachefn yn niwedd y ganrif ddiwethaf i greu marina. Os da y cofiaf, yn y saithdegau, yn y cyfnod 'marineiddio', y clywais gyntaf am *Inner Harbour, Outer Harbour* a *North Quay*. Termau yr oedd peirianwyr pwysig yn eu defnyddio ar gynlluniau. I'r brodorion, fel fi, *Yr Harbwr*, *Ceg yr Harbwr* ac *Ochr yr Harbwr* (*Ochor Rharwbwr*) oedd y mannau hyn. Enwau wrth fynd heibio ydyw'r rhai Cymraeg, heb rym ac urddas termau'r peirianwyr pwysig. Felly dyma gynghorau ymhen y rhawg (Dwyfor a Gwynedd) yn mynd ati i gyfieithu'r enwau rheitiach i'r Gymraeg: *Harbwr Mewnol, Harbwr Allanol* a *Chei'r Gogledd:* i gael Cymraeg plastig newydd. (Chlywais i neb yn dweud y rhain mewn sgwrs naturiol – er bod swyddogion y cyngor sir bellach siawns yn hyddysg ynddyn nhw). Cafwyd 'cywiriadau' eraill fel *Traeth Glan-don* am *Lan Môr Berch* ac am ryw reswm rhaid galw'r *Marina* yn *Hafan* yn Gymraeg. Caiff fod yn *Marina* yn Saesneg. Wn i ddim faint drafferthith ei alw fo'n *Hafan*, pam tybed na chaiff *Marina* ddim bod yn Gymraeg?

Ac ar ôl 'ymgynghori' ac anwybyddu'r Cyngor Tref, wele'r llynedd arwyddion dwyieithog (ia, dwyieithog) newydd gan Gyngor Gwynedd mewn un neu ddau o lefydd, ac arnynt: *Harbwr Allanol, Outer Harbour*. Dyma felly anghofio'r egwyddor o Gymraeg yn unig a chael Cymraeg Plastig gwell i gael gwared â'r hen *Geg yr Harbwr* hyll yna.

A dilyn y rhesymeg, cam bach i swyddogion Gwynedd (fel ag yr ymdrechwyd yn y 19g) fyddai galw'r hen dref yn *Brine-pool*. Wedyn ceid cyfieithu'n ôl i *Helibwll* a'i newid wedyn i enw newydd sbon Saesneg *Hell-pool* fel *Hell's Mouth*. Byddai hynny'n ddigon priodol, canys fel y dywedwyd ymhlith y cychod crand: Pwllheli, Pwll Halen, pwll agosa' i bwll Uffern.

Ydyw, mae'n bwysig bod yn ddwyieithog, rhag i'r di-Gymraeg gael cam. Canys mae arwyddion Cymraeg niferus ar strydoedd Cheltenham, Chippenham a Chester le Street.

A protest against the reintroduction of English place-names in Pwllheli and the coining of English names, which are then translated into Welsh, e.g. Ceg yr Harbwr *becoming* Outer Harbour *in English and* Harbwr Allanol *in Welsh.*

Iwan Edgar

Glenda Carr

Bu Eisteddfod Genedlaethol Môn yn achlysur cofiadwy i Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. Dewiniaeth Ifor a'i gynorthwywyr yn llwyddo i droi pabell gyffredin ar y maes yn ffenest siop werthfawr o'r holl weithgarwch sy'n digwydd yng Nghymru erbyn hyn ym maes enwau lleoedd. Ac yn enw Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.

Eto ar y maes, ganol yr wythnos, traddodwyd darlith gofiadwy gan Glenda Carr ym Mhabell y Cymdeithasau gerbron cynulleidfa niferus a gwerthfawrogol. Pwnc Glenda yn briodol ddigon oedd 'O ble y daeth enwau lleoedd Môn?'. Cynhaliwyd y ddarlith mewn cydweithrediad â'r *Cambrians*, Cymdeithas Hynafiaethau Cymru, a chadeiriwyd gan yr Athro Prys Morgan (Llywydd Cymdeithas Hynafiaethau Cymru).

Er sefydlu'r Gymdeithas, gwnaeth Glenda sawl cyfraniad nodedig ym maes enwau lleoedd ac mae rhagor i ddod ganddi yn y gynhadledd yn Aberystwyth ar 7fed o Hydref pan fydd yn trafod 'Crefft a gwaith yn enwau lleoedd gogledd-orllewin Cymru'.

Mae dwy gyfrol ar enwau lleoedd gan Glenda: *Hen Enwau o Arfon, Llŷn ac Eifionydd* (2011) ac *Hen Enwau o Ynys Môn* (2015). Cyhoeddir y naill a'r llall gan Wasg y Bwthyn.

Cofnodion

Mae Cofnodion Cyfarfodydd y Pwyllgor ar gael i aelodau ar ffurf electronig drwy gysylltu ag angharad.fychan@googlemail.com

Minutes

Minutes of the Committee Meetings are available electronically for members by contacting angharad.fychan@googlemail.com

Gweithdy enwau yn Llangefni

Cynhaliwyd gweithdy cofnodi hen enwau yn Archifau Môn, Llangefni, 26 Ebrill 2017, gyda chydweithrediad staff yr Archifdy a chymorth amhrisiadwy Hywel Wyn Owen ac Ifor Williams. Roedd yn fanteisiol iawn cael cwmni Hywel gan ei fod yn adnabyddus ym Môn ac yn adnabod pawb!

Canolbwyntiwyd ar gasglu enwau caeau hen blwyfi cyfnod y Degwm, *c.* 1840, sef Llangefni, Heneglwys, Llangwyllog, Tregaean a Llanddyfnan. Gan nad oedd yr enwau wedi eu cofnodi yn y Degwm, rhaid oedd ceisio llenwi'r bylchau. Cafwyd amryw enwau sy'n dal ar gof gwlad ac ymwelodd nifer o bobl frwdfrydig â'r gweithdy yn ystod y dydd. Fel yn achos ein noson yng nghwmni Cymdeithas Hanes Bodffordd ychydig wythnosau ynghynt, diddorol iawn oedd nodi enwau cartrefi'r cyfranwyr a chanfod enwau hyfryd. Ymysg llawer roedd Llosg yr Odyn, Lleiniau, Dolau Gleision, y Wern, a Chae'r Delyn.

Daeth amryw â mapiau gydag enwau wedi eu nodi arnynt a bu'n bosibl eu trosglwyddo i'n map digidol. Rydym yn hynod o ddiolchgar i aelodau a gyfrannodd yn hael o'u hymchwil bersonol, yn fapiau, hanesion a rhestri hen enwau. Difyr iawn oedd astudiaeth Elma Parry o ardal Rhos-meirch, gyda chymhariaeth rhwng enwau ffermydd a thyddynnod rhwng 1840 a 1901. Nodwyd ar fap y rhai a ddiflannodd ac maent i gyd wedi eu trosglwyddo i'r map digidol fel nad ânt yn angof. Gwelir Llain yr Aeres, Ysgubor Wen (Ysgubor Ddegwm) a Bryn Chwilfriw. Cofnodwyd hefyd enwau ffynhonnau ynghyd â'u lleoliadau, sef Ffynnon Briwas, Ffynnon Glai, ac yn enwedig enwau pympiau dŵr, fel Saithaelwyd, Pen Llain, a Chlwch. Does rhyfedd bod dau ddewin dŵr yn yr ardal, John Williams, Hafan ac Edwyn Williams, Tŷ'n Pwll.

Cawsom hefyd nifer o hanesion diddorol a lliwgar yn ymwneud â Ffordd Bwbach gan Ann (y Wern), Talwrn, a darn arall yn llaw Catherine Nagashima. Cyfrannodd J Richard Williams fapiau o lannau dwyreiniol Môn ac arno enwau ogofau a chilfachau.

Galwodd Aled Hughes, BBC Radio Cymru, i gael ychydig o sgyrsiau ar gyfer ei raglen fore lau a daeth Dafydd Gwyn a chamera deledu ar gyfer recordio sgyrsiau at Newyddion 9. Braf iawn hefyd oedd croesawu Glenda a Tony Carr atom a chawsom ddiwrnod braf iawn.

Rhian Parry

Golygyddol

Ym mhob pen mae piniwn. Beth yw'r piniwn yn eich pen CHI? Dywedwch wrthym yn enwaulleoedd@gmail.com.

Nid yw unrhyw farn a fynegir yn y cylchlythyr hwn o anghenraid yn fynegiant o farn y Gymdeithas na'r Golygydd.

Editorial

What's your take on place-names?. Let us know at enwaulleoedd@gmail.com.

Opinions expressed in this newsletter are not necessarily those of the Society or of the Editor.

Cysodi / Typeset by: Ifor Williams

Golygydd / Editor: Gareth A Bevan

Llety-caws

Enw'r tyddyn a saif yng nghil haul gyferbyn â phentref Cwmerfyn yng ngogledd Ceredigion yw *Llety-caws*. Ceir tystiolaeth o'i fodolaeth o ddechrau'r ddeunawfed ganrif.

Yn ei gyfrol *Bro Dafydd ap Gwilym* (1992; t 15) ceisia David Jenkins gysylltu'r elfen *caws* yn yr enw â'r Saesneg Canol *cause* yn golygu 'llwybr wedi ei balmantu, yn enwedig un sy'n croesi tir isel gwlyb', gan awgrymu bod lleoliad *Llety-caws* ar y llwybr lletraws rhwng Bwlch Cwmerfyn a'r gwaith mwyn islaw yn gweddu i'r ystyr.

Os felly, gellid cymharu *Llety-caws* â'r enwau lleoedd *Parc-cawsai* a *Phengawsai* yn sir Benfro a *Lla(i)ngawsai* ger Aberystwyth, gan fod *cawsai* hefyd yn fenthyciad o'r Saesneg Canol *cause*.

Yr hyn sy'n codi amheuaeth ynghylch y dehongliad hwn yw union ffurf enw'r tyddyn yn yr enghreifftiau cynharaf ohono, lle atodir yr ansoddair *duon* at yr enw: *Lletty y Caws Duon* yng nghasgliad Ithel W. Jones o weithredoedd Ceredigion (2 Hydref 1722); *Lettr Cawsdwon* gan Lewis Morris yn 'A Plan of the Mannor of Perveth' ([1744]); a *Lletty Caws Duon* ar fap Stad Gogerddan o Lety-spens (1790).

Gan mai ffurf luosog yw *duon* ar yr ansoddair *du*, ni ddisgwylid iddo gael ei ddefnyddio i ddisgrifio *caws* yn golygu 'llwybr wedi ei balmantu' gan mai enw unigol fyddai hwnnw. Rhaid edrych am bosibiliadau eraill felly.

Er bod David Jenkins yn wfftio'r awgrym mai'r gair Cymraeg *caws* 'cheese' sydd yma, mae'n rhaid ei ystyried.

Daeth tystiolaeth i'r fei yn Iwerddon a'r Alban sy'n profi bod menyn a chaws yn arfer cael eu claddu mewn mawn yn yr ucheldir er mwyn eu cadw (*bog cheese* a *bog butter* yw'r termau a ddefnyddir amdanynt). Tybed, felly, a yw enwau megis *Llety-caws Duon* ym mhlwyf Trefeurig, gogledd Ceredigion, ynghyd â *Charnau'r Menyn* a *Cherrig Caws* ar Fynydd Hiraethog, sir Ddinbych, yn tystio i fodolaeth arferion tebyg yng Nghymru?

Ar y llaw arall, mae R. J. Thomas mewn erthygl ym *Mwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd* (1935 vii. t 15) yn nodi mai disgrifiad yw *Llety-caws* o ddaear ffrwythlon fyddai'n gynhaliaeth i wartheg nodedig am gynhyrchu caws. Yn ôl y *Dictionary of the Place-Names of Wales* dyma'r ystyr yn *Nant-y-caws* ger Caerfyrddin yn ogystal.

Enw gwrywaidd yw *caws* fel arfer, ond weithiau caiff ei drin fel enw lluosog yn golygu 'cawsiau'. Os felly, byddai ei ddisgrifio â'r ansoddair lluosog *duon* yn hollol dderbyniol. Ond pam byddai'r caws yn *ddu*?

Efallai, o'i gladdu mewn mawn, y byddai ei groen yn troi'n ddu, ond tybed a oes esboniad arall?

Mewn erthygl dan y pennawd 'Atgofion am Hen Gymro o Bontypridd … fel gwas ffermwr' ym mhapur newydd *Y Darian* yn 1914 mae'r awdur yn adrodd am galedi bywyd gweision ffermydd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn cyfeirio'n wawdlyd at *gaws du*, sef caws wedi llwydo, mae'n debyg:


"Yr oeddwn i a dyn ieuanc arall
yn lladd gwair ar fferm o'r enw —.
Dyna'r lle creulona a welais i erioed
am fwyd. Cawl cig moch byth a
hefyd; yr oedd y caws mor ddu a'r
glo, ac mor galed a fflint. Yr oedd yn
haf twym iawn; ac wedi bod wrthi
am rai dyddiau yn galed, ac yn colli
nerth bob dydd, penderfynasom gael
'strike.' Fel dynion call, darfu i ni
yng nghyntaf gynnal cynadledd e
penderfynu pa gwrs i'w gymeryd; a
dyma'r penderfyniad: Fy mod i geisio
dod o hyd i un o'r caws duon a chelyd
hyny, a bod fy mhartner i ysgrifennu
papur yn cynnwys pob manylion am
y driniaeth oedd gweision y fferm
honno yn gael, ac yr oedd y papur a'r
cosyn i'w hongian i fyny ar dderwen
oedd yn tyfu ar groesffordd gerllaw.

Llun:1914 *Y Darian* 5 Tachwedd, t.6 (Gwefan Papurau Newydd Cymru Ar-lein, LlGC)

Tybed ai caws wedi llwydo fyddai'n cael ei weini yn *Llety-caws Duon* hefyd, ac mai enw difrïol oedd hwn am le oedd yn cynnig fawr o groeso?

Drwy gyd-ddigwyddiad rhyfedd, mae'n ymddangos mai dyna oedd profiad o leiaf un a fu'n lletya yno ryw dro. Mae Tegwyn Jones, Bowstreet yn cofio ei fam (oedd yn dod o bentref Cwmsymlog) yn adrodd y pennill hwn:

Yn Llety-caws y bûm yn lojo,
Fawr o gysur ond tobaco,
Lla'th a menyn, caws a siwgwr -
Llety-caws yn byta'r cwbwl.

Yn ôl tystiolaeth Daniel Huws (Cyn-geidwad Adran Llawysgrifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru) roedd y fersiwn a gâi ei hadrodd gan Dai Rowland Jones (gŵr a aned ym Mont-goch, ond a fu'n byw ym Mhenrhyn-coch) fymryn yn wahanol:

Yn Llety-caws y bûm yn lojo
Heb un cysur ond tybaco;
Dod â the a llaeth a siwgwr,
Llety-caws yn iwsio'r cwbwl.

Mae'r fersiwn hon hithau yn ategu'r dybiaeth mai lle digon llwm a digysur oedd *Llety-caws* i letywyr.

Nododd Daniel Huws i Dai Rowland Jones sôn hefyd mai enw arall ar *Lety-caws* oedd *Llety'r-glem*. Diffiniad *Geiriadur Prifysgol Cymru* o *llety'r glem* yw '*poor place or situation, state of starvation, destitution*', a dyfynnir yr enghraifft hon oddi ar lafar yng ngogledd Ceredigion: '*Llety'r glem* yw hi yna yn ôl pob gwas a fu 'na'.

Fy nheimlad i yw mai disgrifiad oedd *llety'r glem* yn hytrach nag enw lle fel y cyfryw (rhywbeth yn debyg i *dyddyn llwgfa* efallai) ond mae'n ddisgrifiad difyr sydd unwaith eto'n atgyfnerthu'r dehongliad o'r enw.

Go brin bod unrhyw un ar frys i wasanaethu na lletya yn *Llety-caws Duon* ers talwm, a does ryfedd i'r ansoddair *duon* gael ei ollwng o'r enw gyda threigl amser!

It has been suggested that the second element in the place-name Llety-caws *is related to English* cause(way) *or contains the Welsh word for cheese, with the implication that the land was good for raising cattle. Since the earliest examples contain the element* duon *'black', it is argued that the name implies that the cheese produced or kept there was unfit for eating and that the place was unwelcoming. Two rhymes are quoted in support of this.*

Angharad Fychan

Llongyfarchiadau i Steffan

Llun: Steffan a Tes Diolch i'r Faner Newydd

Cyflwynwyd Tlws Coffa Eirug Wyn eleni i Steffan ab Owain, aelod o'r gymdeithas hon a chyn-aelod o'n pwyllgor rheoli. Cyflwynir y wobr i unigolion sy'n gwneud cyfraniad neilltuol gwirfoddol i gynnal iaith a diwylliant yng Nghymru.

Mae traed Steffan yn gadarn yn ei filltir sgwâr, Blaenau Ffestiniog a'r cylch. Mae'n awdur, yn gyd-olygydd cylchgronau ac yn golofnydd difyr. Tyfodd ei ddiddordebau o'i brofiadau yn gweithio yn y chwarel a bod yn beiriannydd, yn godwr waliau, ac yn uwch-gynorthwywr archifau yng Ngwynedd. Dilynodd gyrsiau yng Ngholeg Harlech ac yna ym Mhrifysgol Cymru, Bangor. Daeth yn hanesydd, yn athro, yn llenor ac yn archaeolegydd, y pedwar yn ei gymhwyso'n berffaith i lunio ei ddyfodol ar gynfas unigryw ei fro. Rhannodd ei ddysg a'i ddiddordebau ag aelodau ei gymdeithas yn y Blaenau. Fe'i hysbrydolwyd gan Emrys Evans, un a rannodd yntau ei ddoniau a'i wybodaeth fanwl â'i gymuned. Daeth Steffan yn gyd-olygydd iddo ar gylchgrawn Cymdeithas Hanes Bro Ffestiniog, *Rhamant Bro,* hyd at 2008. Os fyth y cewch gyfle i fynd ar daith gerdded a Steffan yn ei harwain, bachwch ar y cyfle. Cewch wefr o fod yn ei gwmni difyr.

Congratulations to Steffan ab Owain on being awarded the Eirug Wyn Memorial Trophy for his contribution to the promotion of language and culture in Wales.

Place-Names of Glamorgan

Publication of place-name studies rarely proceeds smoothly. *Place-Names of Glamorgan* has been in active preparation for more than two years and has benefited from the valued assistance of several members of the Society. Invitations to subscribe were distributed in 2016 and the initial response was slow but encouraging, with support from major libraries and archives repositories, but stalled in early 2017. This was personally disappointing since the publication is intended to be followed by companion volumes on Carmarthenshire and Powys on which work has already begun. The matter is of wider concern. Detailed local studies provide historical evidence and argument that can assist us all to extend our knowledge of our past, to counter the erosion of our cultural traditions and identity, and ensure that the importance of historic place-names is not sidelined by commercial interests and governmental indifference.

The final text was submitted to the publisher, Welsh Academic Press, in May/June 2017 but publication is now delayed until April 2018. More positively, publication is not threatened and format and price (£19.99) are unlikely to be changed. Further publicity of the forthcoming publication will be undertaken by the publishers in autumn 2017 among booksellers. *Place-Names of Glamorgan* covers more than 1,100 place-names in the historic county and the eight unitary authorities. The volume will be in paperback, illustrated with old prints and photographs, and contains a concise introduction, a description of editorial method, a bibliography, a glossary of common place-name elements, and a close examination of individual place-names and their historic forms. The sources will appear on a database hosted by the Society.

A typical entry is as follows:

Aberthaw, **Aberddawan** ST 0266, 0366
Vale of Glamorgan (Penmark, St Athan)
'mouth of the (r.) Ddawan (Thaw)': ***aber***, rn. *Ddawan*
Abrerthawe c.1262, *Aberthau* 1307, *le havyn de Aberthawyn'* 1479, (haven) *Aberthaw alias Aberdaon* 1584, *Aberthawan* c.1598, *aber δawen* 1606, *Aberddaw* 1742, *Aberddawan* 1888
Ddawan is *nadauan* c.1145, *Nadhauan* early 13th cent, *Thawan Ryver* c.1538, *Ddawon* c.1670 but its meaning is uncertain unless it contains the same root as *naddu* vb. 'to cut (with a sharp instrument)' applied to a r. perceived as cutting through the landscape. Naddawan became Ddawan ['ðauan] through loss of unstressed *Na* - and this form (and Aberddawan) was retained by W–speakers in the Vale. The form Aberthaw with loss of the unstressed final syllable ***-an*** (cf. Llandough/Llandocha) developed at an early date and the pn. is now generally pronounced by E-speakers as if it contained E 'thaw' [θɔ:]; see EANC 64-5. Aberthaw was a notable harbour, described as a seaport in 1349, flanked by the two small hts. of East Aberthaw (ST 034667) and West Aberthaw (ST 024668) which are *Westhawe* and *Eastthawe* in 1426. The haven was otherwise known as *Cowbrygge water* 1479 because the r. was partly navigable for small boats as far as Cowbridge (q.v.).

Linked to:

Glossary:
aber, nf., earlier nm., pl. *ebyr*, 'confluence (of two rivers); mouth of a river' and 'stream, rivulet; creek'

Sources (in the database):
Abrerthawe c.1262 Cartae II, p.650; *Aberthau* 1307 CIPM IV, no.434, p.323; *le havyn de Aberthawyn'* 1479 Worcestre, p.196; *the hauen of Aberthaw alias Aberdaon* 1584 HCamb, p.95; *Aberthawan* c.1598 Breviat, p.101; *aber δawen* 1606 CL MS. 14 (RMW I, p.919); *Aberddaw* 1742 HHlt 1, p.40; *Aberddawan* 1888 Morien in Y Llan 25/05/1888; *nadauan* c.1145 LL, p.204; *Nadhauan* early 13th cent: Cym XIII, p.82; *Thawan Ryver* c.1538 Leland p.22; *Ddawon* c.1670 BG, p.9; seaport in 1349 CIPM IX, no.428, p.332; *Westhawe* and *Eastthawe* in 1426 (GlamLM 110-1); *Cowbrygge water* 1479 Worcestre, p.196.

There will be a list of abbreviated references to more than 300 printed sources and original records held in major libraries and archives.

Richard Morgan

Sarn Elen

Sarn Elen or Sarn Helen is a name now so widely associated with Roman roads that Heather James ('The Roman Roads of Carmarthenshire' in *Sir Gâr: Studies in Carmarthenshire History* 1991, p 56) remarks that it has been used 'almost as a generic term for Roman roads'. Melville Richards, who compiled a list of Sarn Elen names in Wales (*Études Celtiques* xi (1964–5), pp 383–408), however, could cite only eleven examples – or twelve, depending on how we define a particular stretch of road. Only six have been traced to sources before the late eighteenth century so far as I am aware. These are found in William Camden's *Britannia* 1586, the additions of Edward Lhuyd to the Gibson edition of Camden's *Britannia* in 1695, the miscellaneous returns to his questionnaire now generally known as *Parochialia c.*1700 (*Archaeologia Cambrensis* 1909–11), and a probate will of 1627 discussed in the next section. Such figures seem very unimpressive when we consider the hundreds of miles of Roman roads whose existence has been established or conjectured by archaeologists and historians. Many more may once have existed but where is the written evidence? Only two of the examples in Melville Richards' list date before Lhuyd. The significance of these two instances, however, is far greater than the arithmetic might lead us to suppose and it is worth re-examining and re-assessing the evidence.

What has cast a particularly long shadow over all discussion of the name Sarn Elen and the Roman roads of Wales has been the manner in which many later antiquarians expanded and distorted the evidence in *Britannia* and the returns in *Parochialia*. These commentaries – found in county histories, historical journals and topographical dictionaries – threatened to bring the whole subject into disrepute by applying the name Sarn Elen/Sarn Helen, without any documentary evidence, to roads which may or may not have shown characteristics of Roman construction. These might even appear on maps such as that of Nathaniel Coltman *c.*1798 defined by straight parallel lines – far wider than any modern motorway – from one site to another. One of the worst examples is the 'Map of the Antient Provinces of Demetia & Siluria' in Theophilus Jones: *A History of the County of Brecknock* (1809): 'Sarn Helen or the Chester road' is shown as a straight road running from Meifod through Caersŵs, Castell Collen (Cwm) and y Gaer near Brecon to Neath. The name even found its way onto Ordnance Survey maps and plans. Such antiquarian speculation continued to influence local historians and the compilers of guides and tours down to the late twentieth century. It is still commonly and mistakenly supposed that Sarn Elen applied specifically to the road running from Conovium in the Conwy valley to Carmarthen, eg E.G. Bowen and C.A. Gresham: *History of Merioneth*, i. (1967), p 227; Moelwyn Williams: *The Making of the South Wales Landscape (*1975) p 36.

Even Edward Lhuyd (1660–1709) could unwittingly generate guesswork. In his addtions to Camden in 1695 and *Parochialia c.*1700 (ii. pp 53, 57) Lhuyd regarded a road known as *Fordh gam Helen* at one end (SJ 076340) of the mountain Craig Ferwyn (SJ 0733), on the border of counties Merioneth and Denbigh, as part of Sarn Elen. The name is otherwise poorly attested (*Ffordd Gam–Helen* 1875 on OS 1:2,500, *Ffordd Gam Elin* 1900 on OS 1:10,560) but a derivation from Ffordd Gam Elin composed of *ffordd*, *cam*[2], *elin*, is likely, meaning perhaps 'way possessing a crooked elbow'. The road – which may be prehistoric rather than Roman – is notably twisted on the eastern slopes of Craig Ferwyn. The form *Gam Elin* recurs in Moel y Gamelin, a few miles to the north, on Mynydd Llantysilio, Denbighshire, though no early historic forms of this have been found. More could be said on the archaeology of the various Roman roads in Wales but this is largely summarised in the work of Heather James and the contributors to *Roman Frontiers in Wales and the Marches* (ed Barry C. Burnham and J.L. Davies, 2010) with particular reference to the 'Map of Roman roads as presently understood' (p 94) and 'Gazetteer of Roads' by E.M. Evans and others.

To be continued

Richard Morgan

I'ch dyddiadur 2017 / Save the date 2017

6 Hydref / October 2017 7:30yh/pm
'Enwau Afon Rhythallt / Saint' Dafydd Whiteside Thomas, Clwb Cinio Arfon, Y Caban, Brynrefail

7 Hydref / October 2017 10yb/am – 4yp/pm
Cynhadledd Flynyddol CELIC / Annual Conference, Y Drwm, LIGC / NLW, Aberystwyth

11 Hydref / October 2017 7:30yh/pm
'Colli Enw, Colli Hanes' Rhian Parry, Ystafell Gymuned, Melin-y-coed, Llanrwst

18 Hydref / October 2017 12:30yp/pm
Rhai Enwau Lleoedd yn sir Gaerfyrddin' David Thorne, Cylch Cinio Cymraeg Llanelli
Canolfan Selwyn Samuel, Llanelli

18 Hydref / October 2017 7:30yh/pm
'Enwau tai a ffermydd presennol cymuned Bont-goch (Elerch)' Richard Huws, Cymdeithas y Penrhyn, Festri Horeb, Penrhyn-coch, Aberystwyth

18 Hydref / October 2017 7:30yh/pm
Lansio llyfr / Book launch: Hywel Wyn Owen & Ken Lloyd Gruffydd: *Place-Names of Flintshire*, Llyfrgell Yr Wyddgrug / Mold Library

Taith Gerdded Enwau Lleoedd

Ar 18 Gorffennaf 2017 ymgasglodd rhyw ugain o bobl o flaen Canolfan Morlan yn Aberystwyth ar gyfer taith gerdded dan arweiniad Gerald Morgan, awdur nifer o gyfrolau ar hanes lleol, yn enwedig yng Ngheredigion. Cerddodd y grŵp ar hyd Rodfa'r Gogledd (North Parade) i gyfeiriad canol y dref. Esboniodd Gerald mai datblygiad o'r 1820au ymlaen yw'r stryd, wedi ei leoli y tu allan i waliau'r hen dref. Wrth gerdded i fyny'r Stryd Fawr, tynnodd sylw at loriau uchaf nifer o adeiladau, sy'n hŷn o lawer na'r ffenestri newydd unffurf ar lefel y stryd. Ceir placiau ar rai o'r adeiladau yn nodi eu pwysigrwydd hanesyddol, gan gynnwys y tŷ lle lluniwyd Cyffes Ffydd y Methodistiaid yn 1823.

Cerddodd pawb i lawr Heol y Bont gan sylwi ar dai crand y boneddigion lleol cynt, a ddefnyddid ganddynt pan oedd ganddynt fusnes yn y dref. Westminster House, tŷ tref Puwiaid Henblas, Aber-mad a dynnodd y sylw pennaf oherwydd y ffordd mae'r tu allan wedi ei gadw'n raenus. I lawr wedyn i'r gyffordd rhwng Dan Dre (Mill Street), a redai o dan hen waliau'r dref ar un adeg, a Than-y-cae (South Road neu Shipbuilders' Row cyn hynny), heibio i McIlquham's (hen warws sydd bellach yn dŷ tafarn) a dilyn y ffordd lle rhedai cledrau'r lein fach o Bontarfynach i harbwr Aberystwyth tan y 1930au, wedyn o gwmpas y Geulan neu'r Gap, fel y gelwir y pwll yn yr harbwr lle adeiladwyd a thrwsiwyd llongau hwylio ar un adeg.

Yn ôl ar hyd y Prom deheuol (y Ro Fawr gynt, lle roedd iard llifio coed a fewnforid o Fôr Llychlyn) a dringo i fyny Garth-y-môr (Sea View Place), drwy hen fynwent eglwys y dref (y drydedd ers y 18g.), a throi i mewn i Heol y Wig (Weeg Street gynt, wedyn Pier Street ar ôl i'r pir gael ei agor yn 1865). Ymwelwyd â Chwrt y Felin Wynt, un o nifer o hen gyrtiau cudd y tu cefn i'r siopau yn y rhan honno o'r dref. Dychwelodd y criw i Ganolfan Morlan ar hyd y Porth Bach (Eastgate Street), lle safai un o hen byrth y dref, a Stryd Portland. Roedd y daith yn agoriad llygaid i bawb a oedd yn meddwl eu bod yn adnabod Aberystwyth yn dda, diolch i Gerald Morgan.

Andrew Hawke

I'ch dyddiadur 2018 / Save the date 2018

10 Ionawr / January 2018 7:00yh/pm
Sgwrs ar enwau lleoedd, Hywel Wyn Owen, Cymdeithas Capel y Tabernacl, Porthaethwy, Ysgoldy'r Capel

24 Ionawr / January 2018 7:30yh/pm
Sgwrs ar enwau lleoedd, Angharad Fychan, Merched y Wawr, Llanfarian Neuadd Llanfarian, Aberystwyth

13 Chwefror / February 2018 7:30yh/pm
'Enwau Afon Rhythallt / Saint' Dafydd Whiteside Thomas, 'Y Fforwm' (Cymdeithas Archaeoleg Ddiwydiannol) Plas Tan-y-bwlch, Maentwrog

14 Mawrth /March 2018 7:00yh/pm
'Rhai o enwau lleoedd ardal Llandybïe' David Thorne, Cylch Cinio Llandybïe, Clwb Golff Glyn-hir

24 Mawrth / March 2018 yb/am
'Of Field Names and Mediciners' David Thorne, Carmarthenshire Meadows Group, Lleoliad i'w drefnu / tba

26 Mawrth / March 2018 7:30yh/pm
'Hanes ein Hen Enwau' Hywel Wyn Owen, Cymdeithas Cymry Birkenhead, Festri Capel Seion, Laird Street

13 Ebrill / April 2018 6:30yh/pm
'Teitl i'w drefnu / tba' David Thorne, Merched y Wawr Brynaman

6 Hydref / October 2018
Cynhadledd Flynyddol CELIC / WPNS Annual Conference, Caerdydd / Cardiff

Stondin Llawn Prysurdeb

Menter newydd ni eleni oedd llogi stondin yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn ym Modedern. Diolch i Gronfa Dreftadaeth y Loteri am wneud hyn yn bosibl ac am ein cefnogi ar y Maes. Bu Ifor, Hywel a Rhian fawr o dro yn ei gosod, a dod o hyd i'r gefnogaeth wych ar y Maes i hwyluso gosod y dodrefn, y *wifi* a'r meic yn eu lle.

Cawsom le hwylus yn agos i'r brif fynedfa a chymdogion hynaws o'n cwmpas, gan gynnwys Cymdeithas Morrisiaid Môn a Chanolfan Hanes Uwchgwyrfai. Diolch i'r aelodau brwdfrydig a ddaeth i estyn croeso i'r Gymdeithas ac i sgwrsio gydag ymwelwyr. Braf iawn oedd creu perthynas braf a dod i adnabod ein gilydd yn well.

Bu prysurdeb mawr ar y stondin, yn enwedig ganol yr wythnos a galwodd aelodau o'n cyfeillion yn Amlwch heibio. Bwriadant ddechrau arni yn ystod y gaeaf i gasglu a chofnodi enwau lleol ar y mapiau bras a gafwyd at y pwrpas gan Gyngor Môn.

Denodd y paneli newydd, a luniodd Ifor mor ddeheuig, ymwelwyr gydag amrywiol ddiddordebau ac o rannau gwahanol o Gymru. Bydd copïau o baneli Glynebwy yn mynd i Archifau Gwent i'w gosod yn yr ystafell gymunedol yno. Galwodd yr Athro Stuart Cole heibio a chawsom sgwrs ddifyr iawn am enwau lleoedd yn Llanelli a'r Pwll a gofiai o'i ieuenctid . Mae'n amlwg fod tir ffrwythlon yno i ni gydweithio â grwpiau lleol.

Casglwyd nifer fawr o enghreifftiau o enwau a newidiwyd a byddant yn ychwanegu at ein cronfa dystiolaeth. Cawsom gyfeiriadau pobl gyda gwybodaeth leol, mapiau a dyddiaduron yn cynnwys enwau caeau. Cafwyd gwahoddiadau i roi sgyrsiau ym Melin-y-coed, ger Llanrwst, Dinas Mawddwy a nifer o bentrefi eraill. Bydd y rhestr hir o holiadau am ystyron enwau yn cymryd amser i'w hateb ond fe wnawn ein gorau. Cawsom hefyd lu o aelodau newydd, sy'n awgrymu fod ein neges yn treiddio. Edrychwn ymlaen at gael eu cwmni a'u hegni at ein hymdrechion.

Trefnodd Dafydd Whiteside Thomas gystadleuaeth helfa enwau o gwmpas stondinau'r Maes efo 20 o enwau helfa drysor, wedi eu hargraffu ar fyrddau 24x4.5 modfedd a lluniodd Ifor fap o Sir Fôn ag enwau i'w lleoli. Yr enillwyr oedd Gareth Parry, Penmaenmawr ac Alaw a Catrin Simpson o Bencarnisiog. Llongyfarchion iddynt.

Denwyd cynulleidfa dda o flaen y stondin gan sgwrs ddifyr rhwng Bedwyr Rees ac Angharad Fychan am lunio'r gyfres boblogaidd, Arfordir Môn. Daeth nifer hefyd i glywed sgwrs gydag Einion Gruffudd, (prosiect Cynefin y Llyfrgell Genedlaethol) a Rhian Parry. Diolch i bawb am eu cyfraniadau gwerthfawr. Er mor dderbyniol oedd yr haul cryf yn ystod y sgwrs, fe wnaeth hi'n anodd gweld y sgrin a'r mapiau arni, ond fedrwn ni ddim cwyno mewn haf mor wlyb!

Bu'r fenter yn llwyddiant mawr o ran codi ymwybyddiaeth o enwau a'u pwysigrwydd, a chysylltu gydag aelodau a'r cyhoedd.

Tybed a fydd cyfle i ni gael stondin yng Nghaerdydd yn 2018? Bydd rhaid disgwyl i weld sut gynlluniau fydd gan yr Eisteddfod Genedlaethol. A dyma osod her i aelodau'r Gymdeithas sy'n byw o fewn cyrraedd Caerdydd i ddechrau meddwl am gynllun a thema. Bydd Ifor a Rhian yn barod i gefnogi mewn unrhyw ffordd. Trafodwch!